

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel **Bethan Davies**
Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Hydref Clerc y Pwyllgor
2017 0300 200 6372
Amser: 09.00 SeneddCyllid@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

2 Papur(au) i'w nodi

(09.00)

2.1 PTN1 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Adroddiad ar Alldro 2016–17 – 30 Medi 2017

(Tudalennau 1 – 14)

3 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Amcangyfrifon 2017–18: sesiwn dystiolaeth

(09.00–10.00)

(Tudalennau 15 – 43)

Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredol

David Meaden, Cyfrifydd Ariannol

Papur 1 – Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar
gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018–19

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 8 a 9

(10.00)

5 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Amcangyfrifon 2017–18: trafod y dystiolaeth

(10.00–10.15)



6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19: sesiwn dystiolaeth 2 (Prifysgol Bangor)

(10.15–11.15)

(Tudalennau 44 – 110)

Dr Edward Jones, Prifysgol Bangor

Dr Helen Rogers, Prifysgol Bangor

Papur 2 – Prifysgol Bangor: Gwaith craffu a sicrhau annibynnol ar ragolygon trethi datganoledig i Gymru

7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19: Sesiwn dystiolaeth 3 (Trysorlys Cymru)

(11.15–12.15)

(Tudalennau 111 – 182)

Andrew Jeffreys, Trysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru

Dyfed Alsop, Prif Weithredwr, Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)

Julian Revell, Pennaeth Dadansoddi Cyllidol, Trysorlys Cymru

Papur 3 – Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru

8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19: trafod y dystiolaeth

(12.15–12.25)

9 Cyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018–19: Trafod y dystiolaeth

(12.25–12.30)

Mark Drakeford AM/AC

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/3301/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Medi 2017

Annwgi Simon,

Mae Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 bellach wedi eu harchwilio, a'u cyhoeddi ar 6 Medi 2017. Yn unol â'm hymrwymiad i arferion da a thryloywder, gallaf yn awr ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 yn erbyn y cynlluniau gwario sydd wedi eu cymeradwyo yn Ail Gyllideb Atodol 2016-17.

Cwmpas yr alldro terfynol ar gyfer 2016-17 yw £13.8 biliwn yn erbyn Cyllideb Llywodraeth Cymru o £14.1 biliwn. Mae hyn yn cynrychioli amrywiant o 2.2% yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd.

Mae'r adroddiad a'r atodiadau perthnasol yn darparu'r canlynol: crynodeb o wariant yn ôl portffolio o fewn cyfansymiau rheolaeth y Trysorlys; amrywiadau o'u cymharu â'r gyllideb; eglurhad o amrywiannau sylweddol; a manylion symiau sydd i'w cario ymlaen i'r flwyddyn bresennol o dan fecanwaith Cyfnewid Cyllidebau Trysorlys Ei Mawrhydi.

Byddwn yn hapus i drefnu bod Swyddogion ar gael i drafod manylion yr adroddiad os ydych yn teimlo y byddai hynny o fudd.

*In gywir,
Mark.*

Mark Drakeford AM/AC

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. **Tudalen y pecyn 1**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Alldro 2016-17

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro archwiliedig 2016-17 Llywodraeth Cymru wedi'i osod yn erbyn y gwariant arfaethedig yn Ail Gyllideb Atodol 2016-17.

1. Cyflwyniad

1.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2012 ynghylch newidiadau i gynnyg y Gyllideb a'u heffeithiau ar gylch y Gyllideb yn ystod y flwyddyn.

1.2 Fel rhan o'r protocol, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.

1.3 Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ailddatgan yn y protocol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2017.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17.

1.5 Cymeradwywyd Ail Gyllideb Atodol 2016-17 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Mawrth 2017. Mae'r alldro terfynol yn dilyn cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Blynnyddol Llywodraeth Cymru ar 6 Medi 2017. Gweler y ddolen ganlynol:

<http://llyw.cymru/about/civilservice/how-we-work/facts-figures/ourfinance/welsh-government-consolidated-accounts/welsh-government-annual-accounts-2016-2017/?skip=1&lang=cy>

1.6 Caiff yr adroddiad ar yr alldro ei lunio ar sail strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru sydd mewn grym ar y pryd.

2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant 2016-17

- 2.1** Cyflwynwyd Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru gerbron y Cynulliad ar 31 Awst 2017. Mae'r cyfrifon hyn sydd wedi'u harchwilio yn cynnwys Crynodeb o Alldro Adnoddau yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig Ail Gyllideb Atodol 2016-17 (y 'Cwmpas').
- 2.2** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion alldro yn erbyn y rheolaethau sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EM. Mae manylion y cyllidebau gweinyddol hyn ar gael yn y dogfennau a'r tablau oedd yn cydfynd â'r Ail Gyllideb Atodol.

Alldro Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)

- 2.3** Alldro DEL Llywodraeth Cymru sydd wedi'i archwilio yw £14,707 miliwn. Mae hyn yn danwariant o £83 miliwn yn erbyn y gyllideb, fel y cytunwyd arno yn yr Ail Gyllideb Atodol.
- 2.4** Mae'r alldro hwn yn cynnwys tanwariant o £9.1 miliwn yn erbyn y gyllideb Adnoddau Cyllidol (refeniw sydd bron yn arian parod) a £0.7 miliwn yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Mae hyn yn danwariant o 0.07% yn erbyn Adnoddau Cyllidol a 0.05% yn erbyn Cyfalaf.
- 2.5** Mae tanwariant o £73.6 miliwn o ran y gyllideb Adnoddau Anghyllidol (heb fod yn arian parod). Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi'i chlustnodi a'i bod yn cynnwys addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant (gweler isod). Felly, ni fyddai'r arian wedi gallu cael ei ailgyfeirio i raglenni gwariant Llywodraeth Cymru.
- 2.6** Fel mewn blynyddoedd blaenorol, caiff yr holl orwariant ac unrhyw danwariant sy'n fwy na 1% o gyllidebau DEL portffolio (Prif Grwpiau

Gwariant neu MEG) ac sy'n uwch na lefel de-minimis o £0.5 miliwn eu hegluro isod. Mae dadansoddiad o'r alldro yn ôl MEG ar gael yn Atodiad 1.

Adnoddau Cyllidol (Refeniw)

- 2.7** Unwaith eto, roedd lefel gwariant MEG yn y dosbarthiad hwn o'r gyllideb hon yn agos iawn ati. Cafwyd gwybod am danwariant bach iawn yn chwech o'r saith MEG, ac un gyllideb yn unig a ragorodd ar amrywiad o 1% wrth ei fesur yn erbyn yr Ail Gyllideb Atodol. Mae hyn yn darparu rhywfaint o sicrwydd bod gwariant yng nghyllideb refeniw Llywodraeth Cymru o £13 biliwn wedi'i wneud i'r eithaf.
- 2.8** Bu gorwariant o £5 miliwn yn refeniw MEG yr Economi a'r Seilwaith. Talwyd arian ychwanegol am waith a wnaed ar brosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus er mwyn sicrhau'r gwariant mwyaf posibl yn y flwyddyn bresennol ac er mwyn rhyddhau pwysau cyllidebol yn y dyfodol. Caiff y gorwariant hwn ei wrthbwysu gan danwariant mewn MEG eraill.
- 2.9** Y tanwariant o ran refeniw Iechyd, Llesiant a Chwaraeon oedd £7.2 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys cyfanswm diffyg gan gyrrff y GIG yng Nghymru o £147.7 miliwn. Llwyddwyd i ddiwallu'r diffyg drwy welliannau i sefyllfa'r GIG a thanwariant o ran cyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol canolog Llywodraeth Cymru yn yr MEG.
- 2.10** Nodwyd tanwariant o £2.3 miliwn yng nghyllideb refeniw Llywodraeth Leol. Mae'r hyn a ganlyn wedi'i gynnwys yn y swm hwn: £0.9 miliwn ar Drawsnewid a Deddfwriaeth ar ôl mabwysiadu dull newydd o fynd ati i drawsnewid llywodraeth leol; £0.6 miliwn sy'n ymwneud â Swyddogion Cymorth Cymunedol gyda'r amcangyfrifon a baratowyd ar ddechrau'r flwyddyn rhywfaint yn uwch na'r costau gwirioneddol; a £0.2 miliwn yn erbyn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n ymwneud â ffioedd adolygydd cymheiriaid a chostau teithio a chynhaliaeth berthnasol. Roedd hefyd nifer o achosion o danwariant llai sy'n cyfrif am y balans sy'n weddill.

2.11 Nodwyd amrywiad sy'n rhagori ar 1% yn erbyn MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Nodwyd amrywiad o £4.1 miliwn oherwydd tanwariant yn erbyn cyllideb cronfa Buddsoddi i Arbed yn bennaf. Ystyrir defnyddio'r tanwariant at y diben gwreiddiol yn y dyfodol.

Cyfalaf

2.12 Roedd y perfformiad yn erbyn cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru o £1.4 biliwn yn agos at yr hyn a gyllidebwyd, lle nodwyd llai na £0.3 miliwn o danwariant gan bob un MEG.

Adnoddau Anghyllidol (refeniw heb fod yn arian parod)

2.13 Mae mwyafrif o danwariant DEL Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyllidebau heb fod yn arian parod (£73.6 miliwn). Mae cyllidebau heb fod yn arian parod wedi'u clustnodi ac yn cael eu darparu ar gyfer amcangyfrifon cyfrifyddu megis dibrisiant ac addasiadau i ddarpariaethau. Ceir eglurhad o'r rheini a wnaeth danwario o 1% neu ragor isod.

2.14 Nodwyd tanwariant o £4.6 miliwn yng nghyllideb heb fod yn arian parod lechyd, Llesiant a Chwaraeon. Mae'r gyllideb yn bennaf yn ariannu costau dibrisiant sy'n codi ar ystad y GIG felly mae'r rhagolygon yn sensitif i amrywiadau i ddilyniant cynlluniau cyfalaf, prisiadau blynyddol ac amseru ychwanegiadau a gwarediadau cyfalaf.

2.15 Roedd y tanwariant o £37.7 miliwn yn MEG yr Economi a'r Seilwaith yn deillio'n bennaf o gostau dibrisiant yn sgil newidiadau i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y prisiad blynyddol o'r ffyrdd. Y rhwydwaith ffyrdd yw ased mwyaf Llywodraeth Cymru.

2.16 Nodwyd tanwariant o £27.6 miliwn yn erbyn y gyllideb Addysg. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys amcangyfrif o gost y benthyciadau i fyfyrwyr sy'n cael eu dileu bob blwyddyn. Caiff y gost a gyfrifir ei chynhyrchu gan fodel

ystadegol a gafodd ei ddatblygu gan Lywodraeth DU. Codir y gost ar werth y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r gwaith o fodelu'n gymhleth ac mae'n ystyried sawl ffactor cymdeithasol ac economaidd. Felly, mae'n anodd rhagweld yn fanwl cywir.

2.17 Nododd MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu Llywodraeth Cymru danwariant o £4.6 miliwn o'r gyllideb heb fod yn arian parod perthnasol. Mae'r tanwariant hwn yn deillio o gostau dibrisio is na'r disgwyl mewn perthynas ag ystad Llywodraeth Cymru.

Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

2.18 Mae Trysorlys EM yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhaglenni penodol a'u bod yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd ydyw i amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad i hyn, caiff cyllidebau'r rhaglenni hyn eu rheoli'n flynyddol, ac fel arfer, mae'r Trysorlys yn cyflenwi'r arian hwn. Mae mwyafrif ein cyllidebau AME yn cynnwys costau anariannol ac mae enghreifftiau'n cynnwys diffygiant asedau, cynnydd mewn darpariaeth, y benthyciadau sy'n cael eu rhoi i fyfyrwyr a'u had-dalu a phrисиadau pensiwn cyrff a noddur. Ni all Llywodraeth Cymru ailddyrrannu arian sydd heb ei wario yn erbyn rhaglenni AME. Caiff y prif amrywiadau eu hegluro isod.

2.19 Nodwyd gorwariant yng nghyllideb AME Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o £8.2 miliwn. Elfen gyntaf y gorwario yw £15 miliwn sy'n cynnwys symudiadau yn y darpariaethau. Roedd symudiad darpariaeth Cronfa Risg Cymru £15.8 miliwn uwchben y gyllideb. Bu hyn oherwydd i'r Arglwydd Ganghellor ar y pryd adolygu cyfradd disgownt niwed personol yn ystod chwarter ola'r flwyddyn, gan effeithio ar bob setliad hawliadau yn sgil esgeuluster. Roedd y gyfradd yn cynrychioli newid sylweddol, o 2.5% i finws 0.75%. Mae'r gorwariant i ddarpariaeth y £13.6 miliwn sy'n weddill yn ymwneud â setliadau strwythuredig ychwanegol sy'n codi ac addasiadau

i'r amcangyfrif cwantwm. Roedd tanwariant o £14.4 miliwn ar draws darpariaethau lechyd eraill yn gwrthbwysu'r gorwariant hwn.

- 2.20** Ail elfen yr amrywiad lechyd, Llesiant a Chwaraeon hwn yw tanwariant o £6.4 miliwn ar ddiffygiant ar werth asedau'r GIG. Mae hyn oherwydd y gwahaniaethau rhwng rhagolygon a phrisiau terfynol neu newidiadau i amseriad y cynllun.
- 2.21** Roedd yr amrywiad AME o £39.6 miliwn yn MEG yr Economi a'r Seilwaith wedi codi yn sgil lefelau diffygiant is na'r hyn a gyllidebwyd, yn ogystal â darpariaethau arwyddocaol yn cael eu hadfer o flynyddoedd blaenorol.
- 2.22** Nodwyd tanwariant o £17.2 miliwn ar gyfer cyllideb AME Addysg. Roedd hyn yn berthnasol yn bennaf i gyllidebau benthyciadau i fyfyrwyr o £23.6 miliwn sy'n seiliedig ar alw ac yn anodd eu rhagweld. Roedd nifer y materion oedd yn ymwneud â benthyciadau a nifer yr ad-daliadau yn y flwyddyn yn llai na'r disgwyl. Gorbwyswyd hyn gan orwariant o £6.4 miliwn oherwydd y symudiad ddiwedd y flwyddyn i ddarpariaeth pensiwn Gyrfa Cymru. Mae'r symudiad yn seiliedig ar brisiad actwaraidd gan ddarparwyr y cynllun pensiwn.
- 2.23** Mae'r tanwariant o £2.4 miliwn yn erbyn MEG yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn arfaethedig a gododd wrth i staff drosglwyddo o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Roedd aelodau gweithredol a'r rheini a oedd yn gymwys i fod yn aelodau gweithredol o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn cadw'r hawl i barhau'n rhan o'r Gronfa wrth iddynt drosglwyddo. O fis Ebrill 2013, trosglwyddwyd y rhwymedigaethau pensiwn i Cyfoeth Naturiol Cymru ac ers hynny, mae cyllideb wedi'i chynnwys i dalu am unrhyw ddiffyg ariannol yn y cynllun yn y dyfodol. Er bod y gyllideb wedi'i chynnwys yn ystod y pedair blynedd ers trosglwyddo, nid yw wedi'i defnyddio.

2.24 Nodwyd tanwariant o £5.9 miliwn yng nghyllideb MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Roedd mwyafrif yr amrywiad hwn yn berthnasol i ddarpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a chostau pensiwn eraill staff Llywodraeth Cymru. Roedd y costau pensiwn yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a chyfraniadau ariannol a wnaed i'r gronfa. Mae'n anodd iawn rhagweld y cyfraniadau hyn.

2.25 Mae atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o alldro yn erbyn Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

3. Cyfnewid Cyllidebau a Chario Drosodd

- 3.1** Yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2016-17, nododd Llywodraeth Cymru £69.6 miliwn o DEL Adnoddau Cyllidol wrth gefn a £185.7 miliwn o DEL Cyfalaf wrth gefn. Ein bwriad oedd cario drosodd yr arian wrth gefn hwn ynghyd ag unrhyw danwariant hyd at y capiau a gytunwyd sy'n cael eu gorfodi gan Drysorlys EM o dan y system Cyfnewid Cyllidebau. Mae'r capiau wedi'u gosod ar 0.6% o DEL Adnoddau Cymru, 1.5% o DEL Cyfalaf a 15% o DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf.
- 3.2** Yn ystod 2016-17, cafwyd goddefeb gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i gario drosodd £9 miliwn o ran y DEL Adnoddau Cyllidol, £60 miliwn o ran y DEL Cyfalaf a £100 miliwn o ran y DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf uwchben y cyfyngiadau a osodir. Y rheswm dros hyn oedd caniatáu unrhyw gymorth y byddai ei angen yn y dyfodol oherwydd yr ansicrwydd dros ddyfodol y diwydiant dur yng Nghymru yn dilyn cyhoeddiadau Tata Steel.
- 3.3** Mae tabl 1 yn dangos sefyllfa'r arian wrth gefn terfynol. Y balansau i'w cario drosodd ar gyfer DEL Cymru fydd £79.2 miliwn o Adnoddau Cyllidol, £13.2 miliwn o Adnoddau Anghyllidol a £186 miliwn o Gyfalaf, ac mae'r rhain o fewn terfynau diwygiedig y Trysorlys.

Tabl 1 Cario drosodd o ganlyniad i alldro DEL Cymru

	Adnoddau Cyllidol £m	Adnoddau Anghyllidol £m	Cyfalaf £m
Arian Wrth Gefn yn ôl Ail Gyllideb Atodol 2016-17	69.6	430.0	185.7
Tanwariant Llywodraeth Cymru 2016-17	9.1		0.7
Alldro Cyrff Eraill a Thaliadau Uniongyrchol 2016-17	0.5	0.4	-0.4
Balans i'w gario drosodd i 2017-18	79.2	13.2¹	186.0
<i>Terfynau Cyfnewid Cyllidebau'r Trysorlys</i>	87.9	4.5	210.5 ²

- 3.4** Yn ogystal â'r tanwariant a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r balansau i'w cario drosodd yn ystyried alldro'r cyrff eraill sy'n cael eu hariannu gan DEL Cymru, hy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.
- 3.5** Bydd yr addasiadau i'n llinell sylfaen er mwyn adlewyrchu'r swm terfynol sy'n cael ei gario drosodd fel yr amlinellir uchod yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn ariannol drwy broses Amcangyfrif Atodol y DU. Bydd hyn yn ymddangos yn Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2017-18.
- 3.6** Cafodd dyraniadau o'r gronfa Adnoddau Ariannol wrth gefn o £47.4 miliwn, a'r gronfa Gyfalaf o £2.2 miliwn eu gwneud yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2017-18.
- 3.7** O fis Ebrill 2018, bydd y cyfleuster Cyfnewid Cyllidebau yn cael ei ddisodli gan 'Gronfa Arian Parod' newydd. O'r dyddiad hwnnw, bydd tanwariant i

¹ Pe na fyddai'r terfyn ar gyfer cario drosodd DEL Adnoddau Cyllidol yn cael ei ddefnyddio'n llawn, mae modd defnyddio'r balans i gario drosodd DEL Adnoddau Anghyllidol ychwanegol hyd at y cap cyffredinol ar y DEL Adnoddau.

² Mae'r terfyn cyfalaf yn cynnwys £81.6m o drafodiadau traddodiadol a £128.9m o drafodiadau ariannol.

DEL yn cael ei dalu i'r gronfa i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Gall y gronfa newydd gynnwys hyd at £350 miliwn mewn termau crynswth.

Atodiad 1 – Alldro Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) 2016-17

Tudalen y pecyn 13

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Atodol			Alldro			Tan/Gorwariant (-)		
	Adnoddau Cyllidol £m	Adnoddau Anghyllidol £m	Cyfalaf £m	Adnoddau Cyllidol £m	Adnoddau Anghyllidol £m	Cyfalaf £m	Adnoddau Cyllidol £m	Adnoddau Anghyllidol £m	Cyfalaf £m
Iechyd, Llesiant a Chwaraeon	6,752.0	174.8	276.8	6,744.8	170.2	276.5	7.2	4.6	0.3
Llywodraeth Leol	3,333.3	0.4	20.3	3,331.0	0.2	20.3	2.3	0.2	0
Cymunedau a Phlant	362.5	0	403.5	362.4	0	403.4	0.1	0	0.1
Yr Economi a'r Seilwaith	635.6	-212.0	447.8	640.6	-249.7	447.8	-5.0	37.7	0
Addysg	1,370.4	333.0	175.6	1,370.1	305.4	175.5	0.3	27.6	0.1
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig	277.5	11.8	102.2	277.4	11.8	102.0	0.1	0	0.2
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	287.5	16.0	21.2	283.4	12.5	21.2	4.1	3.5	0
CYFANSWM	13,018.8	324.0	1,447.4	13,009.7	250.4	1,446.7	9.1	73.6	0.7

Atodiad 2 – Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol 2016-17

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Atodol £m	Alldro £m	Tan/ Gorwariant(-) £m
Iechyd, Llesiant a Chwaraeon	265.6	273.8	-8.2
Llywodraeth Leol	977.0	977.0	0
Cymunedau a Phlant	33.1	33.1	0
Yr Economi a'r Seilwaith	26.4	-13.2	39.6
Addysg	387.6	370.4	17.2
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig	2.4	0	2.4
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	2.6	-3.3	5.9
CYFANSWM	1,694.7	1,637.8	56.9



Amcangyfrif am y Flwyddyn Ariannol 2018/19

Cynnwys

Adolygiad o 2016-17	1
Cyflwyniad i'r gosodiad amcangyfrifon hwn.....	3
Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4
Y Gwasanaeth Cwynion	5
Llywodraethu Corfforaethol	7
Perfformiad Ariannol.....	8
Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd	9
Gweledigaeth, Cenhadaeth, Nodau Strategol a Gwerthoedd OGCC.....	10
Gosodiad Cyllidebol.....	11
Atodiad.....	13

Adolygiad o 2016-17

Rwyf yn falch o allu cyhoeddi cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch y swyddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gyfeirio'n benodol at ein themâu strategol tair blynedd, sef arloesi, gwella a dylanwadu, sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn canlyniadau i achwynwyr a, gobeithiaf, mewn effeithiau positif ar wasanaethau cyhoeddus.

O ran arloesi, gwnaeth y swyddfa gynnydd pellach o ran cydymffurfiaeth, trwy weithio i sicrhau bod argymhellion i wella'n cael eu gweithredu a'n bod yn sicrhau y gweithredir ar gyfleoedd i ddysgu yn sgil cwynion.

Mae'r dyletswydd gwella wedi cychwyn yn dda. Mae'r holl Swyddogion Gwella wedi datblygu cynlluniau gweithredu penodol ar gyfer y cyrff perthnasol sy'n dod o fewn ein hawdurdodaeth. Mae hyn wedi arwain at nifer o welliannau penodol yn eu diwyllianau delio â chwynion.

Un maes lle gwelwyd gwelliant arbennig oedd y gwelliant mewn amseru – gyda newid i gyfeiriad amseru sy'n canolbwyntio ar gwynion. Mae sefydlu'r Grŵp Cyngori ar y Cod wedi golygu trosolwg rhagweithiol ar gwynion cod ymddygiad, a gostyngiad o saith y cant yn nifer yr achosion sy'n cymryd mwy na chwe mis.

Roeddwn yn falch iawn bod fy adroddiad thematig cyntaf ar wasanaethau y Tu Allan i Oriau wedi arwain at adolygiad cymheiriaid gan Lywodraeth Cymru sydd i'w weithredu trwy gydol 2017. Cyhoeddais adroddiad thematig arall hefyd, Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Beunyddiol, Dysgu Gwersi o Ddelio'n Wael â Chwynion, ym mis Mawrth 2017.

Yn 2016/17 bu cynnydd pellach yn y defnydd o Setliadau Gwirfoddol, cynnydd o tua 26 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, er bod hyn yn gallu arwain at ddatrysiadau cyflymach i gwynion a phrosesau rhatach i wasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig nad yw Datrysiadau Cynnar yn cael eu gweld fel rhyw fath o ddihangfa hawdd i gyrff yn fy awdurdodaeth.

Cyhoeddais chwe adroddiad budd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, ac roedd tri ohonynt yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac roedd nifer o adroddiadau iechyd hefyd yn ymwneud â gwasanaethau y Tu Allan i Oriau.

O ran ein dylanwad â'n cydweithrediad â chyrrff eraill o fewn a'r tu allan i Gymru, roedd 2016/17 yn flwyddyn brysur. Rydym wedi gweithredu trefniadau Archwilio Mewnol ar y cyd gyda'r Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant ac rydym hefyd wedi cyflwyno trefniadau cyflogres ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roeddwn yn falch iawn o gael cymryd rhan yn nigwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gwynion, yn y De a'r Gogledd. Llofnodwyd Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â nifer o Gomisiynwyr a'r Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Yn ystod 2016/17 cyflwynwyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol gennym i'r Pwyllgor Cyllid ac rwyf yn obeithiol iawn y bydd y ddeddfwriaeth yn awr yn mynd ymlaen yn 2017/18.

Yn olaf, nid yn unig yr oedd 2016/17 yn flwyddyn o weithgarwch positif, roedd hefyd yn flwyddyn o ganlyniadau positif. Er gwaethaf yr her a brofwyd yn sgil cynnydd yn y llwythi gwaith, bu cynnydd o 16 y cant yn nifer yr achwynwyr a gafodd ganlyniad positif o fy swyddfa, naill ai trwy setliad gwirfoddol neu gŵyn a gadarnhawyd.



Cyflwyniad i'r gosodiad amcangyfrifon hwn

Rwyf yn cyflwyno'r amcangyfrif cyllideb hwn yn unol â'r gofyniad ym mharagraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n amlinellu'r adnoddau y bydd angen eu cael o Gronfa Gyfunol Cymru i gyflawni fy swyddogaethau statudol heblaw am fy nghyflog, costau Yswiriant Gwladol a phensiwn, sy'n gost uniongyrchol ar wahân ar Gronfa Gyfunol Cymru ac nad yw, felly, yn rhan o'r amcangyfrif hwn. Fodd bynnag, maent wedi'u cynnwys yn fy Nghyfrifon Blynnyddol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu cyfanswm costau rhedeg y swyddfa.

Dyma ail gyflwyniad o amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) i'r Pumed Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am ystyried y cyflwyniad amcangyfrifon hwn. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gyfrifol am ystyried gwaith y swyddfa. Yn ogystal â hyn, bydd OGCC yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i drafod y Cyfrifon Blynnyddol yn ôl y gofyn gan y Pwyllgor hwnnw. Mae'r wybodaeth sydd yn y papur hwn yn ymwneud yn benodol â'r materion sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid.

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn sefydlu swydd yr Ombwdsmon yn 'gorfforaeth undyn'. Mae'r Ombwdsmon yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy fecanwaith yr adroddiad blynnyddol, ac fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer yr arian cyhoeddus y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ymddiried i'r Ombwdsmon i gyflawni ei swyddogaethau.

Y gwariant adnoddau net a geisir ar gyfer 2018/19 heb bwerau newydd yw £4,480k, gyda gofyniad net am arian parod o £4,410k Mae'r ffigurau hyn yn cyfateb i'r cyllid sydd ei angen i reoli llwyth gwaith y Swyddfa'n ôl lefelau'r amcanestyniad gan gadw fy nghyllideb yn ddim mwy na 0.03% o Floc Cymru. Mae'n cynnwys dyraniadau cyflog staff a phwysau chwyddiant eraill er na fydd bellach angen y taliad diffyg y pensiwn blynnyddol. Mae'r manylion yn y papur hwn yn ategu'r cyflwyniad amcangyfrifon hwn.

Os caiff deddfwriaeth newydd yn llywodraethu gwaith yr Ombwdsmon ei chyhoeddi, bydd y gofyniad adnoddau net yn cynyddu i £4,820k ac arian parod i £4,750k mewn blwyddyn lawn. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â phwerau newydd i'w gweld yn yr Atodiad er mwyn bod yn gyflawn, ond nid ydynt yn rhan o'r cyflwyniad cyllidebol ffurfiol.

Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel Ombwdsmon, mae gennyf ddwy rôl benodol. Y rôl gyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwyf yn annibynnol ar bob corff llywodraethol ac rwyf yn darparu fy ngwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan Ddeddf OGCC 2005, rwyf yn ystyried cwynion am gyrff sydd, ar y cyfan, yn rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r cyfrifoldeb dros eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Ymhlith y mathau o gyrff y gallaf ymchwilio iddynt y mae:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yn cynnwys meddygon teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai);
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r gyrff y mae'n eu noddi; a
- gofal cymdeithasol sy'n cael ei drefnu neu ei ariannu'n breifat a gwasanaethau gofal lliniarol

Wrth ystyried cwynion, byddaf yn ceisio gweld a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu wedi cael gwasanaeth gwael oherwydd diffyg ar ran darparwr y gwasanaeth. Ystyrir hefyd a yw darparwr y gwasanaeth wedi gweithredu'n unol â'r gyfraith a'i bolisiau ei hun. Os caiff cwyn ei chadarnhau, yna byddaf yn argymhell camau priodol i wneud iawn am y diffyg. Y prif lwybr a ddilynir wrth argymhell iawn, os yw'n bosibl, yw rhoi'r achwynydd (neu'r person sydd wedi cael cam) yn ôl yn y sefyllfa y byddai ynddi pe na fyddai'r broblem wedi codi. Yn ogystal â hyn, os gwelaf dystiolaeth o wendid systemig wrth ymchwilio, yna gwneir argymhellion gyda'r bwriad o'i gwneud yn llai tebygol y gall pobl eraill brofi problem debyg yn y dyfodol.


Mae fi Nhîm Cynghori ar Gwynion hefyd yn darparu gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru, sef gwasanaeth annibynnol a diduedd dros y ffôn ac ar y we. Mae'n cynnig cyngor i aelodau o'r cyhoedd ynghylch sut i gwyno am wasanaeth cyhoeddus ac yn cyfeirio eu cwyn i'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth y maent yn dymuno cwyno amdano, neu i'r ombwdsmon neu gorff annibynnol priodol sy'n delio â chwynion o'r fath.

Cwynion Cod Ymddygiad

O dan y darpariaethau yn Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a hefyd o dan Orchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, rwyf yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Gallaf ystyried cwynion am ymddygiad aelodau:

- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- cynghorau cymuned
- awdurdodau tân
- awdurdodau parc cenedlaethol
- panelau heddlu a throseddu

Y Gwasanaeth Cwynion





Llwyth Achosion Cwynion 2016/17

(sy'n cynnwys 412 o achosion a ddygwyd ymlaen o 2015/16)

WEDI'U
CAU

2,362

CWYN

I FYNY 2% ar 2015/16



2,114

Cwyn am Gorff
Cyhoeddus

I FYNY 3%



248

Cwyn Cod
Ymddygiad

I LAWR 6%

544 wedi'u ystyried
mewn manylder/
ymchwiliad

I FYNY 4%



44 wedi'u
hymchwilio

I FYNY 19%



462 Datrysiaid neu'n ddilys

I FYNY 16%

O'r rhain:

55% Iechyd

10% Delio â chwynion

9% Tai

9% Gwasanaethau Cymdeithasol

4% Cynllunio

22 tystiolaeth o doriad y Cod

UP 38%

O'r rhain:

45% Hybu Cydraddoldeb a pharch

32% Datgelu a chofrestru buddiannau

9% Uniondeb

9% Gwrthrychedd a phriodoldeb


5% Atebolrwydd a bod yn agored

Llywodraethu Corfforaethol

Mae sefyllfa gyfansoddiadol y gorfforaeth undyn yn golygu bod rhaid i mi, fel Ombwdsmon, fod yn gyfrifol ac atebol am y gweithgareddau a gyflawnir gan fy swyddfa.

Gan ystyried sefyllfa gyfansoddiadol y gorfforaeth undyn, rwyf wedi sefydlu Panel Cyngori sy'n darparu her a chymorth i mi fel Ombwdsmon. Yn ogystal â hyn, mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn is-bwyllgor i'r Panel sy'n darparu cymorth penodol i mi mewn perthynas â'm cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae gwaith y ddau o'r rhain hyn dros y flwyddyn ddiwethaf wedi'i drafod yn fwy manwl yn y Datganiad Llywodraethu yn fy Nghyfrifon Blynnyddol ar gyfer 2016-17, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017.

Trefniadau Fframwaith Sicrhau Risg



Perfformiad Ariannol

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol a rheolaeth fewnol wedi'u hadolygu'n annibynnol gan Deloitte, archwilyr mewnol OGCC. Mae ei adroddiadau wedi dangos fframwaith boddhaol ar gyfer rheolaeth fewnol yn y sefydliad a gwnaeth argymhellion ar gyfer gwella lle'r oedd angen. Dywed ei Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol am y flwyddyn 2016/17: "Based on the work we have undertaken during the year we are able to conclude that the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) has a basically sound system of internal control, which should provide substantial assurance regarding the achievement of PSOW's objectives."

Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn archwilio ddiamedod ar y cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2016/17 fel ym mhob un o'r blynyddoedd blaenorol.


Mae OGCC wedi gweithio ar yr egwyddor y dylai gorbenion y swyddfa fod yn llai na 5% o gyfanswm y gwariant. Llwyddwyd i gyflawni hyn bob blwyddyn ers sefydlu'r swyddfa o dan Ddeddf Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac mae'n egwyddor sydd wedi deillio o ymarfer da o fewn y sector cyhoeddus. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dadansoddiad o wariant yn seiliedig ar nodau ac amcanion fy Nghynllun Strategol fel y'u disgrifiwyd yn y Cyfrifon Blynyddol lle nodwyd fod gorbenion yn 5% o gyfanswm y costau.

Nod 1: Darparu **gwasanaeth cwynion** o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac effeithiol.

Nod 2: Defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn sgil y cwynion a ystyrir gennym i **wella'r ffordd mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn delio â chwynion** a chael effaith ar wella gwasanaethau cyhoeddus a diweddarau polisi cyhoeddus.

Nod 3: Parhau i **esblygu a thyfu** fel swyddfa, yn benodol cynllunio ar gyfer gweithredu pwerau newydd yr Ombudsmon os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu Deddf Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd.

Nod 4: Bod yn atebol am y **gwasanaeth a'r cymorth** a ddarperir gennym ac am yr arian cyhoeddus a warir gennym.



Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

Mae OGCC wedi adrodd i'r Pwyllgor Cyllid cyn hyn am yr ymdrech a wnaethpwyd i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol yng nghanau cyntaf y broses trafod cwynion, ynghyd â symleiddio'r cam ymchwilio. Mae'r trefniadau hyn wedi parhau'n hanfodol wrth ddelio â'r nifer cynyddol o ymholiadau a chwynion y mae fy swyddfa'n eu derbyn.

	10-11	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	Newid
Ymholiadau	1,127	1,866	2,906	3,234	3,470	3,731	4,512	+300%
Cwynion am Gyrrff Cyhoeddus	1,425	1,605	1,790	1,932	2,065	1,992	2,056	+44%
Cwynion Cod Ymddygiad	277	412	291	226	231	276	236	-15%
Cyfanswm y Llwyth Gwaith	2,829	3,883	4,987	5,392	5,766	5,999	6,804	+140%
Gwariant (£000s) ¹	£3,684	£3,389	£3,672	£3,488	£3,585	£3,677	£3,580	-3%
Cost Uned	£1,302	£873	£736	£647	£622	£613	£526	-60%

Yn y cyfnod 2010/11 i 2016/17 bu cynnydd o fwy na 300% yn ein llwyth gwaith a bu gostyngiad o 60% yn y gost uned.

Ymholiadau +300%


Cwynion:

Corff Cyhoeddus +44%

Cod Ymddygiad -15%

Yn ystod yr un cyfnod gwelwyd gostyngiad o £3.7m i £3.6m mewn gwariant adnoddau ar ôl cymhwyso ar gyfer chwyddiant – gostyngiad o 3%.

Llwyth gwaith o'i gymharu â chost uned



¹ Wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant

Gweledigaeth, Cenhadaeth, Nodau Strategol a Gwerthoedd OGCC

Ein **Gweledigaeth** yw:

Diwylliant gwasanaeth cyhoeddus sy'n rhoi gwerth ar gwynion ac sy'n dysgu yn eu sgil i wella darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Ein **Cenhadaeth** yw:

Trwy ystyried cwynion, unioni pethau i ddefnyddwyr gwasanaethau a chyfrannu at ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus a safonau mewn bywyd cyhoeddus.

Ein **Pedwar Nod Strategol** yw:


1. Darparu gwasanaeth cwynion o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac yn effeithiol drwy ystod gwahanol gamau'r broses gwyno.



2. Defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn sgil y cwynion a ystyrir gennym i wella'r ffordd mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn delio â chwynion a chael effaith ar wella gwasanaethau cyhoeddus a goleuo polisi cyhoeddus.
3. Parhau i esblygu a thyfu fel swyddfa, yn benodol cynllunio ar gyfer gweithredu pwerau newydd yr Ombwdsmon os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd.
4. Bod yn atebol am y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac am yr arian cyhoeddus yr ydym yn ei wario.

Ein **Gwerthoedd**, i ategu'r uchod ac i'n helpu i ddarparu cyfiawnder gweinyddol, yw:

- Cydraddoldeb a Thegwch
- Annibyniaeth ac Amhleidioldeb
- Gwella ac Effeithiolrwydd
- Tryloywder ac Atebolrwydd.



Gosodiad Cyllidebol

Gwnaeth yr ymholiadau a'r cwynion gynyddu 13% yn 2016-17. Bu cynnydd o 12% yn yr ymholiadau ym mhedwar mis cyntaf 2017-18, ac er bod cwynion wedi gostwng dros yr un cyfnod yn gyffredinol, mae cwynion ynghylch y GIG wedi cynyddu 15%. Rydym yn tybio y bydd yr ymholiadau a'r cwynion yn cynyddu rhwng 5% a 12% yn 2018-19.

Mae cyflogau staff wedi'u cysylltu â negodiadau cyflogau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Er bod Unite wedi gwneud cyflwyniad cyflogau am gynydd o dros 5% rydym wedi cynnwys codiad cyflog o 1% ar gyfer 2018-19. Bydd y gyllideb hon hefyd yn cynnwys cyllid blwyddyn gyfan am swydd swyddog cyllid (gan ganiatáu i aelod presennol o staff i ganolbwyntio ar ddatblygiadau a diogelwch TG). Mae'r gyllideb arfaethedig yn adlewyrchu cost blwyddyn gyfan penodiadau i lenwi swyddi gwag yn ystod y flwyddyn gyfredol, tâl mamolaeth a thâl swydd yn ystod cyfnod mamolaeth, a symiau bach i gefnogi datblygiad staff mewn rolau ymchwilio allweddol.

Cafodd y diffyg yn y Gronfa Bensiwn ei ddileu ddiwedd mis Mawrth 2017 a dychwelwyd £292k i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2017-18. O ganlyniad i'r symudiad at strategaeth ariannu pensiynau risg isel na fydd angen rhagor o daliadau diffyg. Mae hyn yn effeithio ar arian parod yn unig.

Rydym yn parhau i rentu ein swyddfeydd ym Mhen-coed ar gost isel o £9 y droedfedd sgwâr, sy'n golygu gwerth sylweddol am arian o ran gofod swyddfa, ond mae'n agored i bwysau chwyddiant ar ardrethi busnes, yswiriant a chyfleustodau.

Bydd y contractau TG yn cael eu hail-dendro yn ystod 2017-18 ac mae angen parhau i fuddsoddi mewn TG i gynyddu arbedion effeithlonrwydd. Mae cyfanswm y gost o £225k yn cynnwys costau i reoli newid cyflenwyr neu brosesau a'r cynnydd a amcangyfrifwyd yn y costau ar gyfer systemau a chymorth. Mae hefyd yn cynnwys cynnydd arall o £25k i ddod â'r gwariant arfaethedig ar TG i tua 5% o gyllidebau adnoddau. Er nad oes cyfran benodol o'r gyllideb y dylai sefydliadau ddisgwyl ei gwario ar TG, derbynir yn gyffredinol bod rhwng 4% a 6% yn briodol. Yng ngoleuni pwyslais OGCC ar symud i weithio gyda llai neu ddim papur, a'r angen i wella cydnerthedd a threfniadau adfer TG (yn sgil argymhellion yr archwiliad mewnol a phryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg), tybir fod hyn yn briodol. Byddai'r gyllideb yn cefnogi datblygiad ein systemau TG critigol i sicrhau systemau effeithiol sydd wedi'u diweddarau ac sy'n hyblyg ond yn ddiogel. Rhagwelir y bydd angen y cyllid ychwanegol hwn yn y dyfodol hefyd.

Mae incwm o £17k yn cynrychioli'r costau sy'n ailgodi am reoli cyflogres Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â secondiadau staff.

Mae ein cyllideb hyfforddi'n cynnwys cymryd rhan yn Rhaglen Cymru Gyfan ar gyfer Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cael ei chydlynu gan Academi Wales am gost o tua £15k y flwyddyn.

Nid yw'r amcangyfrif hwn o'r gyllideb yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau wrth gefn i dalu am unrhyw eitemau o wariant annisgwyl, fel heriau cyfreithiol i benderfyniadau fy ngwaith achos.

Yn sgil y pwerau ychwanegol ym Mil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, yn yr Atodiad mae'r cyflwyniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, ynghyd â syniad o'r gofynion o ran y gyllideb am flwyddyn lawn pan fydd y ddeddfwriaeth ar waith. Er mwyn bod yn gyflawn y mae hyn, ac

nid yw'n golygu unrhyw dybiaeth y bydd y ddeddfwriaeth yn parhau yn ei ffurf bresennol neu o gwbl. Mae'r costau yn y golofn derfynol yn cynnwys costau staff, costau swyddfa cysylltiedig a chostau TG sy'n deillio o'r pwerau ychwanegol i ystyried cwynion ar lafar, i gynnal ymchwiliadau ar fy liwt fy hun ac i gyflwyno swyddogaeth safonau cwynion. (Nid oes costau wedi'u cynnwys yng nghyswllt yr estyniad arfaethedig i'r pwerau i ymchwilio i gwynion iechyd sy'n cynnwys elfen o driniaeth iechyd breifat. Disgwylir y gellir delio â'r rhain drwy'r adnoddau presennol sydd ar gael i'r swyddfa.)

Y costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau ychwanegol yn y ddeddfwriaeth newydd yw'r rheini sydd wedi'u cynnwys a'u hesbonio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft, a fydd yn cael eu hystyried yn fanwl fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol.

Atodiad

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Amcangyfrif ar gyfer 2018-19

	Gwirion- eddol 2016/17	Cyllideb 2017/18	Amcan- gyfrif 2018/19	Pwerau Newydd Amcan- gyfrif 2018/19
	£000	£000	£000	£000
A Cyfalaf	27	25	25	25
B Refeniw Cyllidol				
Cyflogau a chostau cysylltiedig	2,827	2,934	3,107	3,372
Costau cysylltiedig â LGPS	280	292	0	0
	3,107	3,226	3,107	3,372
Prydlesi, gan gynnwys swyddfa	435	416	435	435
Systemau cyfrifiadurol a chymorth	177	191	225	243
Costau swyddfa	113	130	130	151
Ffioedd proffesiynol	230	294	300	320
Cyfathrebu	57	78	70	70
Hyfforddiant a recriwtio	45	30	55	62
Teithio a chynhaliaeth	39	31	40	49
Ffi archwilio	6	20	20	20
	4,223	4,416	4,382	4,722
Is-gyfanswm				
Incwm	-5	-1	-17	-17
Cyfanswm Refeniw	4,218	4,415	4,365	4,705
C DEL nad yw'n Arian				
Dibrisiant	82	80	70	70
DEL Refeniw (B+C)	4,300	4,495	4,435	4,775
Cyfanswm DEL (A+B+C)	4,327	4,520	4,460	4,800
D Gwariant a Reolir yn Flynyddol				
Symudiad ar LGPS	-280	-292	0	0
Symudiad darpariaethau	21	20	20	20
Cyfanswm AME	-259	-272	20	20
E Cyfanswm Gwariant a Reolir	4,068	4,248	4,480	4,820
Adnoddau Gofynnol	4,068	4,248	4,480	4,820
Dibrisiant	-82	-80	-70	-70
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	259	272	-20	-20
Symudiadau eraill nad ydynt yn arian	0	20	20	20
Cyfanswm gofyniad arian o'r WCF	4,245	4,460	4,410	4,750

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

BANGOR UNIVERSITY

**INDEPENDENT SCRUTINY AND ASSURANCE OF DEVOLVED
TAX FORECASTS FOR WALES**

FINAL REPORT

OCTOBER 2017

Report produced by: **Dr Edward Thomas Jones**
Dr Helen Rogers

Prof Lynn Hodgkinson

Dr Rhys ap Gwilym

Dr Gwion Williams

Sara Closs-Davies

Bangor Business School

Bangor University

Wales

** Numbers in the tables may not equal to the total due to rounding.*

EXECUTIVE SUMMARY

This report sets out the methodologies and assumptions relating to the Welsh Government's forecasts for devolved taxes which underpin the Welsh Government Draft Budget 2018/19, together with Bangor Business School's conclusion on their suitability for use in the budgeting process.

The Welsh Government, under the terms of the fiscal framework, committed to putting in place arrangements for the independent scrutiny of its devolved tax revenue forecasts. Following a competitive procurement exercise, Bangor Business School, Bangor University was appointed to undertake this work. The aims of this work are:

- The provision of independent scrutiny and assurance about the Welsh Government's forecasts for devolved taxes – land transaction tax, landfill disposals tax and non-domestic rates – for inclusion in the Welsh Government's Budget for 2018/19,
- The provision of advice about improving methodologies for future years' forecasts.

The overall aim of the report is to show how each of the forecasts have been calculated to provide greater transparency on how devolved tax forecasts have been incorporated into the Draft Budget 2018/19 and to explain the independent scrutiny and assurance of the process.

By its very nature, forecasting tax revenues is subject to margins of error. Assumptions are built into forecasts based on the best available information at the time. However these assumptions are often proven too optimistic or pessimistic as new economic events continuously unfold. Such uncertainty is particularly high in the current economic climate. For example, the outcome of the EU referendum, coupled with the lack of clarity on the future relationship between the UK and EU, inevitably increases the economic uncertainty faced in Wales and, in turn, the future path of tax revenues. These uncertainties need to be considered when appraising the devolved tax revenue forecasts.

Section 2 presents the economic scenario which underpins the tax revenue forecasts. The UK has an important role in determining the path of the Welsh economy, and therefore the work of the Office for Budget Responsibility (OBR) in providing independent forecasts for the UK economy is of relevance in constructing the profile and composition of economic activity in Wales. These OBR forecasts and assumptions are part of a broader macro-economic picture and set of assumptions. In the absence of alternative information, such as detailed Wales-specific information, it is considered appropriate to make use of these OBR determinants.

Sections 3 and 4 set out revenue forecasts for the two newly devolved taxes – Landfill Disposals Tax and Land Transaction Tax – for the period up to 2021/22. This coincides with the current range of forecasts published by the OBR. The methodology for the Landfill Disposals Tax is based on forecasting the amount and type of waste sent to Welsh landfill sites and applying the appropriate tax rate to derive a tax revenue. The Land Transaction Tax forecast for residential main rates, non-residential main rates, and non-residential leasehold is based on a bottom-up methodology which utilises all available information to create a base-year price distribution. This is adjusted to reflect changes in economic conditions and behavioural effects, and tax revenues are derived from future distributions. The Land Transaction Tax forecast for additional properties is based on a top-down methodology given limited data availability, forestalling behaviour, and anticipated refunds.

Section 5 sets out the revenue forecast for Non Domestic Rates, a tax which has already been financially devolved to the Welsh Government since April 2015. The forecasting of Non Domestic Rates revenues is not derived from a specific model, but from aggregate data from the administrative exercise undertaken to determine the distributable amount for local authorities. A number of reliefs and other adjustments need to be taken into account before the final forecast amount available to distribute back to local authorities can be derived.

For each of these taxes Bangor Business School has worked with the Welsh Treasury to review and test their methodology, and is making recommendations on how these methods could be improved. This has been an iterative process developed over each phase of our work. A summary of this development work is provided in the next section and discussed further in each section. We have also made a number of recommendations for the future development of the methods. These recommendations could not be actioned by the Welsh Government as part of this process as many can only be incorporated once further information is available or development work is undertaken.

Based on the economic scenario described in Section 2 and the methodologies discussed in this report, the Welsh Government revenue forecasted from Landfill Disposals Tax, Land Transaction Tax, and Non Domestic Rates is given below.

Welsh Government tax revenue forecasts for 2018/19 to 2021/22 (£ millions)

Period	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Landfill Disposals Tax	28	26	23	22
Land Transaction Tax	266	291	318	348
Non Domestic Rates	1,052	1,078	1,112	1,146
Total	1,346	1,395	1,453	1,516

The forecasts for the devolved taxes and their underlying methodology and assumptions have been scrutinised by Bangor Business School. **Based on the information provided by the Welsh Government Treasury, discussion with academics and practitioners on the theoretical assumptions of the models (including factor selection) and analytical examination of the tools and models, Bangor Business School concludes that the forecasts are based on robust and appropriate methodologies and assumptions.** Expected variation in the revenue forecast for different economic scenarios and model assumptions support the suitability of the forecasts' inclusion in the budget setting process.

DEVELOPMENT OF METHODOLOGY AND FUTURE RECOMMENDATIONS

Development of methodology

Through the process of working with the Welsh Government to scrutinise their forecasting methodologies, Bangor Business School made a number of recommendations which have then been incorporated in order to develop the methodology.

For example, with regard to the Landfill Disposals Tax forecast, one of the main challenges is the lack of Welsh revenue data for the predecessor tax. Based on a suggestion from Bangor Business School, the Welsh Treasury carried out further assessment work on the forecasting methodology to make sure it was making best use of the available data. The impact on the forecast of varying some of the key assumptions which affect the prospects for future revenues from landfill was also looked at.

On Land Transaction Tax, the Welsh Treasury was asked to look at alternative sources for forecast determinants for both residential and non-residential revenues, providing assurance that it was using the most appropriate sources available. Independent back testing of the methodology and testing of the stability of the price distributions of transactions underpinning the forecast was also carried out.

